**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 16 Chwefror 2016

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh

**Teitl: Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynigion cyfalaf Dyraniad Bloc a dderbyniwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2016/17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor archwilio, wedi cyfarfod ar sawl achlysur i ystyried cynigion a baratowyd gan bob adran.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cefnogi'r prosiectau a ddangosir yn Atodiad 1 i'w cynnwys yng nghynllun cyfalaf 2016/17, ac mae'n argymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 yn unol â hynny ar gyfer 2015/16 ac yn parhau â'r setliadau cyfalaf safonol diweddar.

4.2 Gyda'r diffyg twf mewn buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond i ddibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol. Mae hyn yn golygu naill ai gwerthu asedau i gynhyrchu derbyniadau neu ddefnyddio Benthyca Darbodus.

4.3 Mae'r Cyngor yn anelu at gael gwared ar nifer o safleoedd dros y tair blynedd nesaf. Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2016/17 yn cynnwys £871k o asedau sydd ar hyn o bryd yn cael eu symud ymlaen i'w gwaredu, a rhagwelir iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2016 ac £138k o asedau y rhagwelir y byddant yn symud ymlaen i gael eu gwaredu yn ystod 2016/17. Mae dyraniad o'r cronfeydd hyn i gynlluniau yn amodol hyd nes y derbynnir arian o waredidadau.

4.4 Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer 2016/17 i'w gweld isod:

| **Ffynhonnell** | **Swm £000** |
|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,842 |
| Benthyca â Chymorth heb ei neilltuo | 3,026 |
| Benthyca Darbodus - Priffyrdd | 2,776 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 888 |
| Derbyniadau Cyfalaf y Dyfodol - Gwaredu asedau parhaus | 1,009 |
| Arian wrth gefn nas gwariwyd d/y | 500 |
| Cyfraniad Refeniw yng nghanol y Flwyddyn | 1,500 |
| **Cyfanswm y Cyllid sydd ar gael 2016/17** | **11,541** |

4.5 Mae'r Cynllun Cyfalaf yn gwario arian ar ddau fath o brosiect. Yn gyntaf mae prosiectau untro fel ysgol newydd neu ailwampio canolfan hamdden, yr ail fath o wariant yw 'dyraniad bloc'. Mae'r rhain yn rhaglenni parhaus o waith sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd (ac efallai byth yn gyflawn) e.e. cynnal a chadw ysgolion. Gellir talu am elfennau o'r gwaith hwn o gyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw, ond mae rhan sylweddol yn cael ei ariannu drwy'r cynllun cyfalaf.

**Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

4.6 Penderfynodd y Grŵp Buddsoddi Strategol wahodd ceisiadau yn unol â'r dyraniadau bloc y cytunwyd arnynt eisoes gan adrannau. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu 11 o geisiadau dros nifer o gyfarfodydd.

4.7 Cafodd pob cais ei gyflwyno gyda chymeradwyaeth y pennaeth gwasanaeth perthnasol.

- Y bwriad yw dyrannu £1.5 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Mae dyraniad o £220k yn cael ei argymell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Theleofal. Mae'r cyllid hwn yn cael ei dargedu at alluogi'r henoed a'r anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Y bwriad yw dyrannu £140k i'r Ystâd Amaethyddol i gefnogi rhesymoli'r ystâd a mynd i'r afael â materion Iechyd a Diogelwch. Mae'r dyraniad hwn dros dro, yn amodol ar waredu asedau.

- Mae cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion a rhai nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Cael Gwared ar Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, DDA ac ati. Argymhellir bod £2.070 miliwn yn cael ei ddyrannu i Waith Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion. O'r swm hwn, bydd £519k dros dro, yn amodol ar waredu asedau. Bwriedir hefyd dyrannu £800k i waith cynnal a chadw cyfalaf nad ydynt yn ysgolion. O'r swm hwn, bydd £350k dros dro, yn amodol ar waredu asedau. Argymhellir ymhellach bod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu union ddyraniadau i'r gwaith penodol sydd eu hangen, yn nhrefn blaenoriaeth.

- Mae priffyrdd wedi cael £150k i gefnogi benthyca darbodus fel rhan o'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17. Bydd hyn yn caniatáu tua £2.550m o wariant cyfalaf. Yn ogystal â hyn, bwriedir dyrannu dyraniad bloc o £1 miliwn ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. Yn ogystal â hyn, cynigir dyrannu £2,535k fel arian cyfatebol i gefnogi cais am grant £7,605k i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith gwella risg llifogydd arfordirol yn Nwyrain Y Rhyl.

- Ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol gynnig ar gyfer parhad rhaglen chwe blynedd o ailosod yr holl lusernau goleuadau stryd o fewn Sir Ddinbych gyda llusernau LED newydd. Dechreuodd y rhaglen ym 2015/16 a bydd yn costio cyfanswm o £1.5 miliwn, gan ddarparu arbedion sylweddol ar gostau ynni a chostau cynnal a chadw parhaus. Ariennir y cynllun drwy fenter cyllid Salix y Llywodraeth, sy'n darparu benthyciadau di-log ar gyfer prosiectau ynni effeithlon, a bydd yn cael ei ad-dalu gan ddefnyddio'r arbedion a gynhyrchwyd. Mae'r costau o fewn y cais wedi cael eu cytuno gyda Chyllid. Mae ceisiadau am gyllid Salix yn ofynnol yn flynyddol, ac mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cyflwyno cais i gael benthyciad Salix ar gyfer costau ail flwyddyn sy’n £226k i'w ad-dalu dros 6 blynedd.

- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl yn £0.5m, yn unol â 2015/16.

4.8 Mae Atodiad 1 yn dangos y prosiectau a restrir gyda’r cyllid a argymhellir ar gyfer pob un. Mae pob prosiect sy'n cael ei argymell i'w gymeradwyo yn cael ei ddangos o dan golofn wahanol yn yr atodiad:

- Priffyrdd PB - £2.776 miliwn. Mae hyn yn £2.550 miliwn o fenthyca darbodus i gael ei gefnogi gan y gyllideb refeniw fel y cymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Ionawr 2016, ynghyd â chais o £226k arfaethedig ar gyfer arian Salix.
- Cronfeydd y Cyngor - Mae'r rhain yn gronfeydd fel grantiau cyffredinol, derbyniadau cyfalaf, a chronfeydd wrth gefn heb eu gwario. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys £1.5 miliwn ar gael yn dilyn adolygiad o gronfeydd

wrth gefn a darpariaethau corfforaethol. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Adroddiad Cyllid y rhaglen hon.

4.9 Mae aelodaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol fel a ganlyn:

- Aelod Cabinet – Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad
- Aelod Cabinet - Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros yr Economi
- Aelod Cabinet - Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Archwilio
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a'r Parth Cyhoeddus
- Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151
- Rheolwr - Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae prosiectau wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni amcanion corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 **Goblygiadau Cost**

Mae costau'r cynlluniau yn cael eu dangos yn Atodiad 1. Bydd y costau Benthyca Darbodus yn cael eu diwallu trwy gyllideb refeniw 2016/17.

6.2 **Staffio/TG/Goblygiadau Swyddfa**

Mae'n ofynnol i bob prosiect newydd gwblhau Cynnig Prosiect neu ffurflen Achos Busnes a bod unrhyw oblygiadau penodol yn cael eu trafod yn ystod y cam hwnnw.

6.3 **Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun archwiliad gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo'n briodol, allyriadau tunnell carbon perthnasol cyn ac ar ôl prosiect, gan nodi felly a yw'r prosiect yn allyriad carbon cadarnhaol, negyddol neu niwtral. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

Bydd cynnydd / gostyngiad yn y defnydd o offer TG yn effeithio ar gostau trydan a chost carbon.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Bydd y dyraniadau arfaethedig ar gyfer pob prosiect yn cael eu hailasesu cyn cychwyn i gadarnhau nad oes unrhyw effaith arwyddocaol. Mae'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei hintegreiddio i bob cais ar gyfer prosiectau cyfalaf.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Rhoddodd Penaethiaid Gwasanaeth gymeradwyaeth i gyflwyno'r ceisiadau. Mae cynrychiolwyr o bwyllgorau Cabinet ac Archwilio wedi bod yn rhan o'r broses.

Mae pob aelod wedi cael gwybod am y cynigion, gyda chopïau caled o'r ceisiadau yn cael eu lleoli yn ystafell yr Aelodau, Neuadd y Sir, Rhuthun, a chynigion prosiectau ar gael i'w gweld ar Mod.Gov.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn briodol yn ei asedau. Gall peidio â gwneud hynny achosi costau mwy sylweddol yn y tymor hir. Gyda'r gostyngiad parhaus yng ngwerth gwirioneddol benthyca a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor ddibynnu ar ei adnoddau ei hun yn fwy a mwy.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

### 10.1 Risgiau sy’n gysylltiedig â pheidio â chytuno â'r argymhellion

Byddai risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau ddim yn symud ymlaen, colli grant ac amhariadau ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio os nad yw buddsoddiad yn cael ei wneud, a gall hyn arwain at golli gwasanaethau pwysig.

### 10.2 Risgiau sy’n gysylltiedig â chytuno â'r argymhellion

Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae’r holl gynlluniau’n cael eu hadolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac maent hefyd yn destun monitro ac adrodd misol parhaus.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Gofynnir i Awdurdodau Lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972) wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.